



Polisi Dysgu o Hirbell Ysgol Gyfun Gŵyr

Rhagarweiniad

Pan fo'n rhaid cau yr ysgol i ddisgyblion am gyfnod amhenodol oherwydd tywydd garw neu faterion yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd, blaenoriaeth pennaf yr Ysgol yw iechyd a diogelwch pob disgybl ac aelod o staff. Bydd yr Ysgol yn cau yn unol â chyfarwyddiadau a rheoliadau cydnabyddedig.

Bydd ebost briffio yn cael ei rannu gan y TRhU am 8:30am yn feunyddiol o Ddydd Llun – Gwener.

Bydd hefyd Trydar beunyddiol canolog yn cyfarch cymuned yr Ysgol.

Mae'n ofynnol i'r Ysgol barhau i gynnig addysg i bob disgybl a myfyriwr yr Ysgol yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd y ddarpariaeth yn parhau i gynnig arweiniad, gwybodaeth a hyfforddiant yn unol â chynlluniau gwaith adrannol, ac fe osodir gwaith i bob plentyn.

Disgwylir i bob aelod o staff ymroi i'r egwyddorion hyn wrth ddygymod â'r sefyllfaoedd anarferol hyn.

Egwyddorion

1. Mae **cyfrifoldeb** pob athro i'r dosbarthiadau y mae yn ei addysgu yn parhau yn weithredol. **Yr athrawon sydd dal yn gyfrifol am addysgu a dysgu effeithiol yn ystod cyfnod o addysgu o hirbell.**
2. Disgwylir i **amlder** cysylltiad pob athro a'i ddosbarthiadau gael ei gynnal yn ystod cyfnod o addysgu o hirbell. **Os yw athro yn 'gweld' dosbarth tair gwaith mewn wythnos, yna dylid cysylltu yn electronig (ebost Hwb) tair gwaith yr wythnos a dosbarth y disgyblion hynny. Glynir at strwythur yr amserlen gyfredol o ran cysylltu â dosbarthiadau.**
3. Mae **strwythurau o fewn Adrannau** yr Ysgol yn parhau mewn lle yn ystod cyfnod o Ddysgu o Hirbell. **Mae cyfrifoldeb y Pennaeth Adran am yr addysgu a dysgu o fewn yr Adran yn parhau. Os oes gofid am gynnydd o fewn pwnc, gwaith y Pennaeth Adran yw adrodd i'w reolwr llinell. Cyfrifoldeb y Pennaeth Adran fydd delio â chyfathrebiad yn ymwneud â'r pwnc gan e.e. CBAC, Cymwysterau Cymru.**
4. Mae **strwythurau Bugeiliol** yr Ysgol yn parhau mewn lle yn ystod cyfnod o Ddysgu o Hirbell. **Er enghraifft, mae Tiwtor Dosbarth 8B dal yn ymddiddori yn, ac yn cefnogi, disgyblion 8B. Mae Pennaeth Bl.8 dal yn ymateb i ofidiau am gynnydd a lles disgyblion y flwyddyn. Yn ogystal mae materion Amddiffyn Plant i'w cyfeirio drwy MyConcern yn ôl yr arfer.**
5. Mae **strwythurau rheoli canol ac uwch** yr Ysgol dal mewn lle wrth weithredu Dysgu o Hirbell. **Saif strwythurau cyfrifoldebau Rheolwyr, a chyfundrefn Rheolwyr Llinell.**
6. Mae **staff ategol** yr Ysgol yn parhau i ysgwyddo yr un cyfrifoldeb ag arfer wrth weithio o hirbell. **Er enghraifft, mae'r Swyddog Arholiadau dal yn gyfrifol am arholiadau. Os nad oes modd gweithredu rôl wrth weithio o Hirbell, gall y Pennaeth wneud cais rhesymol i aelod o staff ysgwyddo cyfrifoldeb amgen.**
7. Bwriedir glynu at **gyfundrefn beunyddiol o hysbysu rhieni** o'r angen iddyn nhw sicrhau bod eu plant yn logio mlaen i HWB yn ddyddiol er mwyn cyflawni gwaith a derbyn cyfarwyddiadau gan athrawon. Gwneir hyn yn ganolog gan y Swyddog Data.
8. Defnyddir ebost Hwb i staff gysylltu â'i gilydd.

Camau Gweithredu wrth baratoi ar gyfer Dysgu o Hirbell

- **Gwirio cyfeiriad HWB pob disgybl** – taenlenni cyfredol ar gael ar *Staff Distribution*.
- **Trafod y broses ymlaen llaw gyda phob disgybl** yn eu dosbathïadau dysgu. Gosod canllawiau a chyfarwyddïadau clir ar gyfer ymateb i'r tasgau, cyflawni gwaith, a chyflwyno'r gwaith i'r athro.
- **Defnyddio Class Notebook / Google Classroom / Teams / ebyst ar HWB** i greu a rhannu adnoddau a derbyn gwaith. Gellid gosod cysylltiadau i feddalwedd arall fel dolenni mewn ebyst. Cynigir hyfforddiant i aelodau o staff ar y camau sydd angen i'w dilyn i sefydlu a gweithredu hyn. Gall y cyfnod o addasu ac arbrofi yn hyn o beth barhau tra bod yr ysgol ar gau, gan gyfathrebu hyn yn glir i ddisgyblion.
- Awgrymir sefydlu **cyfeiriadau ebost HWB torfol** i bob dosbarth y bydd athro yn ei addysgu.
- **Cynigir adborth** ar gyfer gwaith naill ai yn *Class Notebook* neu ar ebost.

NI DDYLID BYTH DEFNYDDIO MEDDALWEDD I GYSYLLTU Â DISGYBLION SY'N CANIATAU I STAFF WELD DISGYBLION ONIBAI BOD HYN WEDI EI GYMERADWYO O FLAENLLAW GAN GYDLYNYDD TGCH YR YSGOL

NI DDYLID DEFNYDDIO UNRHYW DDULL O GYFATHREBU GYDA DISGYBLION Y TU ALLAN I HWB.

Awgrymiadau pellach:

- Llunio gweithgareddau hwylus fydd yn sbarduno pobl ifainc i weithio, ymchwilio, darllen, ymarfer, ac yn bwysicach oll, i wenu!
- Beth am ofyn i ddisgyblion fod yn fentrus a chreadigol wrth ymateb i heriau pen-ogored?
- Yng nghyd-destun Cwricwlwm 2022, daw cyfle i arbrofi wrth osod tasgau heriol sy'n ymestyn
- Beth am gyfeirio at y llu o adnoddau sydd ar gael ar e.e. *YouTube*, ac ar HWB ei hunan, er mwyn datblygu ymwybyddiaeth o Gymru a Chymreictod?
- Gosod gwaith pwrpasol yng nghyd-destun paratoi ar gyfer arholïadau allanol ar gyfer disgyblion hyn yr Ysgol.
- Ffocysu ar fynnu sylw disgyblion wrth osod tasgau diddorol a pherthnasol.
- Ystyried ennyn cynnydd fel targed wrth gynllunio tasgau.
- Dangos diddordeb bugeiliol ym mhob disgybl wrth ymateb i ebyst.

Trefniadau Penodol Adrannol (Mawrth - Mai 2020)

Y Gymraeg

Darpariaeth yr Adran Gymraeg ar gyfer CA3 yw gwefan gydag amrywiaeth o dasgau penodol. Yn ogystal ceir dolenni at wefannau eraill er mwyn cefnogi'r dysgu. Trosglwyddir hefyd yr un wybodaeth drwy *Google Classrooms* ynghyd â chyfathrebu a'r disgyblion ac asesu'u gwaith. Ar gyfer CA4 a 5, darperir gwybodaeth ar wefan yr Adran yn ogystal â'r defnydd o *Google Classrooms* ac ebyst athrawon yr adran. Diogelir hoelio, cynnal a datblygu sgiliau Llafar, Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu y dysgwyr yn ystod y cyfnod hwn o weithio'n annibynnol

Saesneg

Tan y Pasg:

Bl.7 – Exotic pets opinion task, llyfrynnau llythrennedd

Bl.8 – Travel guide, llyfrynnau llythrennedd

Bl.9 – Poetry analysis or comparison, llyfrynnau llythrennedd

Bl.10/11 – Parhau â gwaith ar *Heroes* a chyn-bapurau *An Inspector Calls*, cyn-bapurau laith

Bl.12/13 parhau â'r gwaith ar y testunau gosod

Ar ôl y Pasg:

Bl.7 –Prosiect Cymru/Teithio/Fy Mro

Bl.8 –Prosiect Shakespeare/Theatr Oes Elisabeth

Bl.9 –Paratoi'r Cyflwyniad Unigol ar gyfer TGAU

Bl.10/11 – Parhau â gwaith ar *Heroes* a chyn-bapurau *An Inspector Calls*, cyn-bapurau laith

Dylai disgyblion wirio ebost HWB a *Microsoft Teams* ar HWB yn rheolaidd er mwyn derbyn negeseuon a thasgau gan eu hathrawon.

Mathemateg

Rydym wedi ffurfio *ClassNote* ar gyfer pob blwyddyn sy'n cynnwys y gwaith canlynol:

CA3: Cynbapurau Rhifedd i'w cwblhau dros y pythefnos gyntaf gydag atebion yn cael eu hychwanegu ar ddiwedd pob wythnos. Ar ôl y gwyliau, bydd pythefnos o adolygu gwaith y flwyddyn trwy gwblhau asesiadau ar-lein (*Forms*). Yna fe fyddwn yn parhau i ddydsu o bellter, a byddwn yn darparu gwersi ar-lein.

Bl.10: Gwaith adolygu dros y bythefnos gynta gydag atebion yn cael eu hychwanegu ar ddiwedd pob wythnos. Ar ôl y gwyliau, bydd asesiadau ar-lein.

Bl.11 + CA5: Cynbapurau. Myfyrwyr yn gweithio trwy'r rhain a gwirio atebion yn *ClassNote*.

Gwyddoniaeth

Rhennir y gwaith ac adnoddau defnyddiol ar HWB lle mae pob athro wedi sefydlu dosbarth drwy *Teams* gyda'u disgyblion. Disgwylir i bob athro anfon neges i'r dosbarth yn ystod y diwrnodau mae'r dosbarth hynny ar ei amserlen. Disgyblion i gyfathrebu gydag athrawon dros ebost. Cynigir sialensiau gwyddonol hwyl yn wythnosol i'r disgyblion drwy *HWB Teams* a Thrydar yr adran: @gwyddgwyr.

Ieithoedd Modern

Mae'r Adran Ieithoedd Modern yn darparu addysg i bob disgybl Bl 10- 13 drwy gyfrwng *HWB Classrooms*. Mae'r disgyblion yn gyfarwydd â'r system oherwydd mae'n gweithredu ers pedair mlynedd. Bydd ffolder newydd yn cael ei rhoi pob wythnos i'r dosbarth penodol, sy'n cynnwys tasgau'r wythnos. Mae'r disgyblion hefyd yn cyfranogi o sesiynau llafar yn unig [nid fideo wyneb i wyneb] ar *Microsoft Teams* er mwyn parhau â'u gwaith llafar. Bydd Blynnyddoedd 10 i 13 yn parhau i gwblhau cyrsiau CBAC er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer eu cymwysterau. O ran CA3:

Bl 7 – y rhan fwyaf wedi derbyn copi caled o'r gwaith am chwe wythnos. Y gweddill yn derbyn copi electronig. Mae pawb yn derbyn ebost yn wythnosol i egluro pa dasgau sydd angen gwneud o'r pecyn gwaith.

Bl 8 – Tasgau yn cael eu ebostio ar gyfer y thema newydd, sef Dillad

Bl 9 – Tan Basg, mae pob disgybl wedi ymuno â dosbarth *Duolingo* Ffrangeg a Sbaeneg er mwyn gweithio yn annibynnol am bythefnos. Mae'r athro yn gosod targed ac yna yn monitro cynnydd trwy'r system *Duolingo*. Yn hwyrach, bydd efallai yn bosib gosod gwaith yn ôl dewisiadau TGAU er mwyn herio y rhai sy'n parhau gydag ieithoedd tramor.

Hanes

Mae'r adran wedi creu cyfeiriadau ebost Hwb torfol ar gyfer pob dosbarth o Flwyddyn 7-13 a'r disgyblion wedi derbyn negeseuon i wirio eu ebyst yn ddyddiol. Byddwn yn danfon gwaith iddynt ar y diwrnodau hynny pan fod ganddynt wersi ar yr amserlen. Mae disgyblion CA4 a CA5 eisoes wedi terbyn copiâu caled o'r holl waith sydd i'w ddarllen/ cwblhau ond byddwn yn darparu copiâu electroneg i hefyd i'r rheiny sydd wedi bod yn absennol/ colli'r nodiadau. Darperir cyfarwyddiadau iddynt ar yr hyn sydd i'w wneud drwy e-bost. O ran CA3 bydd disgyblion yn derbyn adnoddau / tasgau drwy e byst ar y themâu arferol sef:

Bl.7 – Byd Peryglus

Bl.8 – Y Tuduraid

Bl.9 – Dirgelion mewn Hanes

Daearyddiaeth

Fel adran rydym wedi sefydlu cyfeiriadau ebost HWB torfol ar gyfer dosbarthiadau bl.7-13. Mae disgyblion Bl.7-13 wedi cael eu hysbysu'r wythnos yma fod angen gwirio eu ebyst am waith Daearyddiaeth ar y diwrnodau pan fod ganddynt wersi Daearyddiaeth. Bydd Blynyddoedd 7-10 yn cael yr holl waith yn electronig gan gynnwys pwyntiau pŵer. Mae Blwyddyn 11, 12 ac 13 wedi cael yr holl waith ar ffurf copi caled. Byddwn yn parhau i ofyn am waith i gael eu cwblhau ar ddyddiadau penodol. Ffocysau'r Blynyddoedd:

Bl.7 - Y Byd Peryglus

Bl.8 - Aneddiadau

Bl.9 - Peryglon Tectonig

Bl.10-13 Cyrsiau TGAU/Lefel A

Addysg Grefyddol

Mae'r adran Addysg Grefyddol yn darparu addysg i bob disgybl (Blynyddoedd 7 i 13) drwy gyfrwng *HWB Classrooms*. Bydd pob disgybl yn derbyn linc, naill ai yng ngwersi Addysg Grefyddol neu drwy ebost wrth athro, er mwyn medru ymuno gyda'r dosbarth. Yn wythnosol, fe fyddwn yn cysylltu ar *HWB Classrooms* er mwyn rhoi cyfarwyddiadau ar y tasgau sydd angen i'r disgyblion gwblhau. Fe wnawn hefyd osod dyddiadau cau, yn unol ag amserlen arferol yr adran, ar gyfer casglu'r gwaith. Fe ofynnwn i ddisgyblion gyflwyno eu gwaith yn ddigidol drwy ebostio'r athro.

Mae'r cwricwlwm yn parhau i Flynyddoedd 7 i 9. Blwyddyn 7 yn astudio 'A yw'r byd yn beryglus?'; Blwyddyn 8 yn astudio 'Dioddefaint a'r Holocaust'; Blwyddyn 9 yn astudio 'Crefydd a'r Cyfryngau'. Bydd blynyddoedd 10 i 13 yn parhau i gwblhau cyrsiau CBAC er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer eu cymhwysterau. Bydd cysylltiad mwy aml gyda disgyblion TGAU a Lefel A oherwydd natur amllder eu gwersi yn yr ysgol.

Celf

Mae'r Adran Gelf yn darparu addysg i bob disgybl o flwyddyn 7-13 drwy gyfrwng *Google Classrooms*. Bydd pobl disgybl yn derbyn linc i ymuno a'i ddosbarth er mwyn dysgu o hirbell. Bydd pobl disgybl yn derbyn hyn drwy ei gyferiad ebost yn HWB. Bydd cyfarwyddiadau clir yn cael ei rhoi ar gyfer y wers Gelf sydd yn seiliedig ar batrwm ei amserlen gwersi arferol. Weithiau bydd ambell dasg yn parhau at yr wythnos ganlynol oherwydd natur ymarferol y pwnc. Bydd y dyddiadau cau ar gyfer derbyn y gwaith i'w weld yn *Google Classrooms* a chyfrifoldeb y disgybl yw ymateb i hynny. Bydd natur y gwaith yn seiliedig ar themâu cynlluniau gwaith yr adran ar gyfer CA3. Mae CA4/5 gyda themâu personol ac mae ganddynt hwythau

gynllun gwaith personol yn eu llyfrau braslunio. Rhoddwyd copi digidol o hwn yn *Google Classrooms* i atgyfnerthu y tasgau.

Cerddoriaeth

Darperir gwersi Cerdd ar gyfer CA3 trwy *Microsoft Teams* gydag amrywiaeth o dasgau penodol. Yn ogystal, ceir dolenni at wefannau eraill er mwyn cefnogi'r dysgu. Ar gyfer CA4 a 5, darperir gwybodaeth ar *Microsoft Teams* a thrwy ebyst athrawon yr adran.

Drama

Mae'r Adran Ddrama yn darparu gwaith i ddisgyblion Blwyddyn 7 – 13 ar *Google Classrooms*. Mae sawl dosbarth wedi cael eu hysbyu yr wythnos hon, ond dylai pob disgybl sy'n cael gwersi Drama wirio e bost. Yn wythnosol, rhoddir tasgau hwylus i ddisgyblion gwblhau erbyn amser penodedig. Bydd y disgyblion TGAU a Lefel A yn parhau gyda'u cyrsiau CBAC, ac fe fydd adnoddau a nodiadau ar *Google Classrooms*. Bydd cysylltiad cyson rhwng yr athrawon a'r disgyblion er mwyn hyrwyddo cynnydd a rhoi adborth ar unrhyw waith sy'n cael ei gwblhau, neu unrhyw faterion sy'n codi.

Ffotograffiaeth

Cysylltir gyda dosbarthiadau Ffotograffiaeth CA4 a CA5 trwy ebost HWB torfol, dull a fabwysiedir eisoes gyda Bl.11 a 13. Mae Blynnyddoedd 10 a 12 wedi cael eu hysbysu o'r dull yma. Parheir i ymateb i ofynion unigol y disgyblion wrth iddynt ddanfon tystiolaeth o'u gwaithi'r athrawes. Blynnyddoedd penodol:

Blwyddyn 10 yn parhau gyda'u gwaith cwrs, yn creu portffolio o waith sydd yn dangos ystod o dechnegau. Mae gwaith disgyblion yn dilyn thema personol, a bydd disgwyl iddynt ymateb i dasgau penodol dros yr wythnosau nesaf ac addasu fel maent yn ei weld, er sicrhau addaswydd i'w ymholiad personol.

Blwyddyn 11 yn parhau gyda'u gwaith arholiad hyd at Basg ac wedyn yn cael rhywfaint o amser i weithio ar y targedau unigol a osodwyd ar gyfer gwaith cwrs. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r dyddiad cau.

Blwyddyn 12 dal yn gweithio ar uned 1, sef gwaith cwrs. Maent yn y broses o ddarganfod arddull eu hun o ffotograffiaeth. Dros yr wythnosau nesaf byddant yn symud ymlaen i ddatblygu syniadau ar gyfer eu hymateb terfynol. Bydd disgwyl iddynt ddatblygu a mireinio syniadau priodol cyn dethol a chreu ymateb addas.

Blwyddyn 13 yn gweithio ar uned 3, sef eu harholiad allanol. Maent wedi gorffen eu gwaith ymchwilio a bellach yn dilyn trywydd ymholi unigol sydd yn ddatblygiad naturiol o'u gwaith yn seiliedig ar arddull ffotograffwyr. Bydd disgwyl iddynt ddatblygu syniadau addas, mireinio ac addasu'n briodol i greu cynllun manwl o'u hymateb terfynol.

Dylunio a Thechnoleg

CA3

Byddwn yn darparu addysg i Flynyddoedd 7-9 yn unol â chynnwys unedau Tecstilau, Bwyd a Dylunio Cynnyrch. Gwneir hyn drwy gyfrwng *Google Classrooms* a hefyd drwy ebostio'n uniongyrchol. Hefyd, bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu drwy gyfrif *Twitter*: @dtgwyr.

DT: Dylunio Cynnyrch TGAU, UG ac Uwch

Byddwn yn darparu addysg i Flynyddoedd 10-13 ar gyfer dosbarthiadau arholiad DT: Dylunio Cynnyrch. Gwneir hyn drwy gyfrwng *Google Classrooms*. Rydym eisoes wedi darparu cyn bapurau arholiad, cynlluniau marcio, nodiadau, mapiau meddwl, llyfrau gwaith a phwyntiau pŵer yn ôl eu themâu. Cefnogir hyn oll gan yr uchod yn electronig.

Mae ein dosbarthiadau ym Mlynnyddoedd 11,12 a 13 yn parhau i weithio ar eu gwaith cwrs o ran eu llyfrau gwaith anffurfiol a ffeiliau ffurfiol. Rydym wedi sicrhau rhaglen *CAD Techsoft 2D* ar gyfer ein myfyrwyr i weithio gartre. Hefyd, rhennir gwybodaeth drwy gyfrif *Twitter* newydd yr adran: @dtgwyr.

Arlwyo/Bwyd a Maeth

Mae'r Adran Arlwyo/Bwyd a Maeth yn darparu addysg i bob disgybl (Blynnyddoedd 7 i 11) drwy gyfrwng *Google Classrooms*. Bydd pob disgybl yn derbyn linc, naill ai mewn gwersi neu drwy ebost wrth athro, er mwyn medru ymuno gyda'r dosbarth. Yn wythnosol, fe fyddwn yn cysylltu ar *Google Classrooms* er mwyn rhoi cyfarwyddiadau ar y tasgau sydd angen i'r disgyblion gwblhau. Fe wnawn hefyd osod dyddiadau cau, yn unol ag amserlen arferol yr adran, ar gyfer casglu'r gwaith. Fe ofynnwn i ddisgyblion gyflwyno eu gwaith yn ddigidol drwy ebostio'r athro.

Mae'r cwricwlwm yn parhau i Flynyddoedd 7 i 9: Blwyddyn 7 yn astudio 'Bwyta'n lachus'; Blwyddyn 8 yn astudio "Bwydydd ar draws y Byd"; Blwyddyn 9 yn astudio 'Maeth a chyflwniad i Arlwyo a Lletygarwch'. Bydd Blynnyddoedd 10 i 11 yn parhau i gwblhau'r cyrsiau CBAC er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer eu cymhwysterau. Bydd cysylltiad mwy aml gyda disgyblion TGAU oherwydd natur mwy aml eu gwersi yn yr ysgol.

Fe fydd tudalen ar *Instagram* hefyd ar gyfer yr ysgol a'r gymuned cyfan i hybu pobl i coginio adref, hefyd syniadau ar sut i siopa ar gyllideb, a sut i dyfu bwyd eich hunan. Fe fydd fideos, ryseitiau a linciau yn cael eu gosod ar y dudalen – *ceginmrhenry* ar *Instagram*. Mae hyn wedi cael ei hysbysebu ar drydar yr ysgol.

Tecstilau

Bydd yr Adran Decstilau yn sicrhau fod darpariaeth ar gyfer holl ddisgyblion Blynnyddoedd 7 i 11 drwy gyfrwng *Google Classrooms*. Erbyn hyn mae tasgau bob Blwyddyn wedi eu rhannu drwy *Google Classrooms* am yr wythnosau nesaf. Mae athrawon yr adran wedi ychwanegu pob unigolyn i'r ddarpariaeth gyfrifiadurol. Byddwn yn cysylltu yn rheolaidd er mwyn gwirio dealltwriaeth tasgau ac er mwyn ehangu ar y cyfarwyddiadau ar gyfer y tasgau sydd angen i'w cwblhau. Mae'r tasgau wedi'u rhannu ar ffurf pwerbwynt, felly mae un tasg yn ddigon ar gyfer 1 - 2 wers arferol yn yr ysgol. Gofynnwn i ddisgyblion gyflwyno'r tasgau ar ffurf *Google Classrooms* wedi iddynt eu cwblhau. Bydd disgwyl i Flwyddyn 11 barhau i gwblhau unrhyw waith cwrs ac arholiad sydd angen. Byddwn mewn cysylltiad rheolaidd gyda'r disgyblion. Mae gan yr adran tudalen *Instagram* (@gwinio_gwyr) lle byddwn yn uwchlwytho tasgau crefft amrywiol ac unrhyw wybodaeth angenrheidiol.

Addysg Gorfforol a Lles

Fel Adran rydym wedi sefydlu cyfeiriadau e-bost HWB torfol ar gyfer dosbarthiadau Bl.7-13. Bydd disgyblion Bl.7-13 yn cael eu hannog anogir i ddilyn e.e. Joe Wickes (yr hyfforddwr ymarfer corff) ar *YouTube* er mwyn cyfranogi mewn sesiynau ymarfer corff. Derbynia Blynnyddoedd 7-9 ebyst ar y diwrnodau pan fo ganddynt wersi Addysg Gorfforol a Lles yn cynnwys cyfarwyddiadau am ymarferion/tasgau ymarferol a thasgau iechyd meddwl y gallant gyflawni. Mae Blynnyddoedd 10 - 13 wedi cael eu holl waith ar ffurf copi caled ond bydd modd gweld y gwaith yn electroneg hefyd ac fe'u hysbysir o hynny. Byddwn yn parhau i ofyn am waith i gael eu cwblhau erbyn dyddiadau penodol.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r ddau dosbarth Bl.10 Iechyd a Gofal wedi cael canllawiau ac hyfforddiant ar sut i ddefnyddio *Microsoft Teams* ac mae tasgau ac adnoddau eisoes wedi eu rhoi arno. Mae gan y disgyblion becynnau gwaith unedau 1-4 i barhau â'r gwaith hefyd. Mae'r ddau ddosbarth Blwyddyn 11 wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio *Microsoft Teams* ac yn barod wedi derbyn deunydd er mwyn cwblhau Gwaith Cwrs. Cyfathrebir yn rheolaidd â'r disgyblion yn electronig er mwyn gwneud unrhyw welliannau i'r gwaith cwrs er

mwyn marcio terfynol erbyn 30ain o Fawrth. Yn yr un modd, mae dosbarthiadau Bl.12 a 13 Iechyd a Gofal wedi ymgysgu gyda *Microsoft Teams* ble mae adnoddau, tasgau wedi cael eu gosod. Mae myfyrwyr CA5 hefyd yn trosglwyddo gwaith cwrs dros e-bost i'w farcio ac wedi rhoi copi caled cyflawn i mewn eisoes.

TGCh a Chyfrifiadureg

Mae'r adran TGCh a Chyfrifiadureg wedi bod yn darparu nodiadau ar-lein ers dwy flynedd mewn amrywiaeth o wahanol ffurf. Ar gyfer bob dosbarth rydym yn defnyddio *Microsoft Teams* yn lle dosbarthu copiâu papur o unrhyw waith. Ar gyfer Cyfnodau Allweddol 4 a 5, rydym yn rhoi ein holl nodiadau mewn fformat digidol ar-lein ac ar gael unrhyw adeg. Yn ogystal, eleni rydym wedi bod yn defnyddio *Wakelet* i drosglwyddo nodiadau i Flynyddoedd 10 ac 11. Y cyfeiriad am hyn yw <http://www.wakelet.com/@gjed>. Fel adran rydym yn cadw golwg ar y wahanol dechnolegau sydd ar gael ac yn newid ein strategaethau a darpariaeth yn ôl yr angen.

Astudiaethau Cyfryngau

Er mwyn darparu gwersi yr Adran Gyfryngau yn ystod y cyfnod dysgu o hirbell, mae'r adran wedi sefydlu system ebyst ar gyfer CA4 er mwyn cyfathrebu a darparu gwersi. Dyma system gyfarwydd i ddisgyblion yr adran a bydd modd dychwelyd tasgau ar gyfer asesiad drwy ebost ar HWB. Bydd dolenni at wefannau eraill er mwyn cefnogi rhai tasgau hefyd. Mae galwad ffon wedi mynd adref i rieni disgyblion Blwyddyn 10 yn eu hysbysu o'r drefn ac mae neges destun a chyfarfod wedi bod rhwng Bl 11 a'r Pennaeth Blwyddyn er mwyn rhannu'r neges am y defnydd o ebyst. Bydd yr holl waith i CA4 yn cael ei ddarparu yn electronig yn nodi pa dasgau sydd angen eu cyflawni a hyd tebygol cwblhau bob tasg. Bydd CA5 yn derbyn eu gwersi yn electronig ac mae eisoes gan yr adran system lwyddianus o gyfathrebu, yn ganlyniad i weithio mewn partneriaeth gydag Ysgol Bryntawe ers sawl blwyddyn, a hyn drwy system *What's App* ac ebyst ar HWB. Ffocws addysgu CA4 a 5 yw cyrsiau TGAU/SafonUwch.

Astudiaethau Busnes

Bydd Blynnyddoedd 10 i 13 yn parhau i gwblhau cyrsiau CBAC er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer eu cymwysterau. Fe fydd nodiadau'r myfyrwyr ar *HWB Classes* ynghyd â chyn bapurau a chynlluniau marcio. Ar gyfer Blynnyddoedd 12 a 13 yn ychwanegol, fe fydd pwyntiau pŵer gwersi a fideos adolygu ar gael. Bydd ebost rheolaidd, yn ystod gwersi swyddogol, ac ymatebir i unrhyw ymholiadau mor gynted ag sy'n bosib.

Gwasanaethau Cyhoeddus

Gan fod y dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer cyrsiau BTEC lefel 2 a 3 yn waith cwrs yn bennaf (ar wahân i un uned arholiad yn y cwrs Lefel 2) ein cyfarwyddiadau ar gyfer ein disgyblion yw i orffen pob uned o waith cwrs yn unol â'r dyddiadau cau gwreiddiol. Rydym yn rhoi'r cyngor yma am ein bod yn gweld y broses asesu ar gyfer BTEC yn parhau fel yr arfer.

Byddwn yn darparu addysg i bob disgybl sy'n dilyn y cyrsiau drwy gyfrwng *HWB Google Classrooms*. Bydd pob disgybl yn derbyn gwybodaeth, naill ai yn eu gwersi Gwasanaethau Cyhoeddus neu drwy ebost gan yr athro/awon er mwyn medru ymuno gyda'r dosbarth. Yn wythnosol, fe fyddwn yn cysylltu ar *HWB Google Classrooms* er mwyn rhoi cyfarwyddiadau ar y tasgau sydd angen cwblhau ac unrhyw ddyddiadau cau. Er mwyn casglu'r gwaith, fe ofynnwn i ddisgyblion gyflwyno eu gwaith yn ddigidol drwy ebostio'r athro - gellir gwneud hwn yn uniongyrchol ar *HWB Google Classrooms*.

Seicoleg

Sefydlwyd cyfeiriadau ebost HWB torfol ar gyfer dosbarthiadau Bl.12 a 13 Seicoleg . Mae'r myfyrwyr wedi cael eu hysbysu'r bod angen gwirio eu ebyst am waith Seicoleg ar y diwrnodau pan fod ganddynt wersi

Seicoleg . Maent wedi cael yr holl waith sydd angen arnynt tan ddiwedd y fanyleb yn gopiau caled. Ebstir copiau digidol o gyflwyniadau pwynt pwer. Parheir i ddanfon cwestiynau arholiad i'w cwblhau, a danfonir ambell feini prawf ar gyfer prosesau hunan-asesu cyn y cynigir adborth ar waith hefyd. Gwneir defnydd mawr o gyfrif trydar yr adran hefyd @seicolegyggwyr gan osod erthyglau estynedig a fydd yn ymestyn y myfyrwyr ac yn atgyfnerthu dealltwriaeth a gwybodaeth o destunau perthnasol.

Bagloriaeth Cymru

BAC CA4

Cysylltir â'r disgyblion drwy gyfrwng *HWB Classrooms*. Mae pob disgybl yn derbyn cyfarwyddiadau wythnosol ar sut i barhau gyda'r gwaith sydd eisoes wedi ei gychwyn. Bydd athrawon unigol hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol gyda'u dosbarthiadau nhw ar ebost er mwyn derbyn copiau o waith dros yr wythnosau nesaf. Mae'r ffeiliau angenrheidiol wedi eu gosod ar HWB er sicrhau mynediad dyddiol iddyn nhw. Mae yna gyfle trwy *HWB Classrooms* ac ebost HWB i gysylltu er mwyn derbyn adborth neu er mwyn derbyn cyfarwyddiadau pellach wrth eu athrawon. Bydd dyddiadau cau yn cael eu gosod yn unol â dyddiadau cau ac asesu CBAC.

BAC CA5

Mae staff dysgu wedi sefydlu *HWB Classes* i uwchlwytho gwaith ac wedi creu grŵp HWB i'w dosbarthiadau er mwyn hysbysu'r myfyrwr am y gwersi. Lluniwyd llythyr i fynd at BI12 yn amlinellu tasgau'r BAC tan y Pasg ac mae'r rhai wedi cael esboniad yn y gwersi ar dir yr ysgol. Uwchlwythir mwy o waith ar *Classes* unwaith byddwn ni'n gwybod y sefyllfa os na fyddwn ni'n dychwelyd ar ôl y Pasg ac yn cynnwys cyfarwyddiadau manwl ar bob darn o waith. Rhaid i'r myfyrwr ebostio tasgau gorffenedig at yr athro BAC erbyn y dyddiad cau cyntaf, sef Ebrill 3ydd.

Ble Mae'r Gwaith / Where is the Work?

O dan yr amgylchiadau ar hyn o bryd, mae adrannau'r ysgol yn defnyddio un allan o bedwar gwahanol system i ddosbarthu gwaith i'r plant.

Er mwyn helpu chi cynllunio, crëwyd y tabl isod i ddangos ble i ffeindio pob darn o waith.

Under the current circumstances, departments are using one of four systems to distribute work to the pupils.

To help you plan, the following table has been created to show where to find the work.

Microsoft Teams

Adran / Department

- Saesneg / English
- Gwyddoniaeth / Science
- **Iechyd a Gofal** / Health and Social
- Cerdd / Music
- TGCh / ICT
- **Ieithoedd Modern** / Modern Languages (7-9)
- **Y Chweched Dosbarth** / The Sixth Form
- **Iechyd a Gofal (10/11)** / Health and Social Care
- **Cyfrifiadureg** / Computer Science
- **Cyfryngau** / Media Studies

Google Classrooms

Adran / Department

- Cymraeg / Welsh
- Celf / Art
- Arlwyo / Catering
- **Gwasanaethau Cyhoeddus** / Public Services
- Tecstilïau / Textiles
- Drama / Drama
- **Dylunio a Thechnoleg** / Design and Technology
- **Addysg Gorfforol 10-13** / PE Year 10-13

Hwb Classes

Adran / Department

- **Ieithoedd Modern** / Modern Languages (10-13)
- **Busnes** / Business
- **BAC CA4** / Welsh BAC KS4
- **BAC CA5** / Welsh BAC KS5
- **Addysg Grefyddol** / Religious Education

EMail

Adran / Department

- Cyfryngau / Media
- **Seicoleg** / Psychology
- Ffotograffiaeth / Photography
- **Addysg Gorfforol** / Physical Education
- **Hanes** / History
- Daearyddiaeth / Geography
- **Ieithoedd Modern** / Modern Languages (7-9)
- **Iechyd a Gofal (12/13)** / Health and Social Care
- **Cyfryngau** / Media Studies

GWERTHUSO DARPARIAETH ADDYSGU A DYSGU O BELL YSGOL GYFUN GŴYR			
PWNC	CRYFDERAU / MANTEISION	GWENDIADAU / PROBLEMAU	FFORDD YMLAEN
Addysg Grefyddol	HWB Classrooms yn ddull hawdd i'w ddefnyddio. Mae'r broses o bostio gwaith ac uwchlwytho gwaith yn ddyddiol yn ddi-ffws. Mae yna fodd i ddisgyblion ymateb i'r 'drafodaeth' a felly mae yna gyfathrebu effeithiol yn digwydd. Hynny yw mae disgyblion yn gwybod i wirio y trafodaethau er mwyn gweld os yw eu cwestiynau nhw wedi cael eu hateb yn barod. Mae hyn yn lleihau pwysau ar staff wrth leihau nifer yr ebyst rydym yn derbyn yn ddyddiol sydd yn medru gofyn yr un cwestiynau tro ar ol tro.	Nid oes modd gwirio ymatebion y disgyblion. Does dim modd sicrhau bod y plant yn cwblhau y tasgau na hyd yn oed yn gwirio eu ebyst a'r cyfarwyddiadau yn y man cyntaf. Hefyd, wrth ddanfôn ebost i hysbysu bod y gwaith yn hwyr does dim modd sicrhau eu bod yn darllen yr ebost ac yn ymateb. Mae'n bosib ebostio rhieni (yn enwedig CA4/CA5 er nid yw hyn mor effeithiol â rhoi galwad ffon ayyb.	Parhau gyda'r arfer sydd wedi ei sefydlu gyda HWB Classrooms. Ebostio rhieni disgyblion sydd heb wneud gwaith er mwyn dangos i ddisgyblion bod modd gwneud hyn o hirbell. Parhau i dreialu syniadau digidol newydd yn yr adran gan werthuso pa mor llwyddiannus ydynt.
Iechyd a Gofal	Rhai disgyblion yn dangos disgyblaeth a threfn i'r Gwaith. Defnyddio aseiniadau ar Teams yn galluogi athro I weld pwy sydd wedi agor y neges.....arf da.	Rhai dysgwyr yn ymateb yn dda iawn ond eraill ddim hyd yn oed yn agor negeseuon-rwyf wedi bod yn ffonio rhai rhieni I ofyn iddi nhw yn garedig I atgoffa ei plant I ymateb. ee Ben Mainwaring, Kaiden Wheeler, Joseph Davies, Holly Phillipart bl 13. Mae hyn wedi gweithio ar y cyfan wedyn. Yn bwysig I fl 13 o rhan casglu Gwaith cwrs mewn a fel ti rwyf yn benderfynol o gael popeth mewn!!!	Ni'n credu bod y ffyrdd rydym wedi dewis yn addas i'r pwnc a'r disgyblion felly parhau y gwnewn ni gyda'r dulliau hyn.
Cymraeg	<ul style="list-style-type: none"> - Ymdrech arbennig gan nifer o ddisgyblion ac wedi derbyn gwaith safonol iaw - Arweiniad clir ar y gwefannau (sy'n edrych yn broffesiynol) i ddisgyblion i allu bwrw ati gyda gwaith · Hawdd cynllunio o flaen llaw · Modd rhoi amrywiaeth o bethau i'r disgyblion i wneud · Hawdd cyfathrebu gyda'r disgyblion sydd yn ebostio/ anfon gwaith. Modd cael ymateb iddynt yn gyflym. · Clywed wrth rai disgyblion yn gyson ac mae'r mwyafrif ohonynt sy'n ceisio cyrchu gwaith yn gallu gwneud hynny'n gynyddol rwyddach · Marcio'r gwaith yn hawdd drwy rhoi 	<ul style="list-style-type: none"> -Nifer o rieni wedi codi'r pwynt ei bod hi'n dipyn o her yn gychwynnol i ffeindio a rheoli gwaith gan fod y tasgau ar lwyfannau amrywiol - rhieni wedi cysylltu ag athrawon yr Adran am hyn. · Angen cofio bod rhai plant heb offer priodol i allu wneud tasgau – bydd angen rhoi dewis o dasg ysgrifenedig yn lle un digidol a nifer o ddisgyblion heb rieni all eu helpu trwy gyfrwng y Gymraeg - felly angen i dasgau gymryd hyn i ystyriaeth – o bosib bydd rhiad rhoi canllawiau dwyieithog???? - Ansawdd ambell dasg wedi bod yn bod yn is na'r disgwyl –wedi brysio er mwyn gorffen - wedi nodi hynny yn yr adborth a bydd 	

	<p>sylwadau yn y 'Comments' ar y gwaith ac yna ebostio sylwadau iddynt. Y disgyblion yn ymateb yn dda i'r sylwadau- h.y. yn hoff o gael adborth cyflym. Pawb yn hoffi ac yn cytuno!</p>	<p>angen parhau I nodi tangyflawni a diffyg ymdrech.</p> <ul style="list-style-type: none"> · Rhai disgyblion yn ymbellhau o dasgau e.e. ambell un ym mlwyddyn 11 a blynyddoedd eraill wedi cysylltu yr wythnos hon i ofyn sut oedd mynd mewn at y wefan - sy'n awgrymu nad oeddent wedi gwneud dim yn yr wythnos gyntaf? · Bl.10 Cymraeg yn peri gofid e.e SB a CS er gwaetha pob ymdrech i gysylltu – ebost a 'parent call' nid oes ymateb wedi bod. Beth felly yw'r cam nesaf I ni fel adran??? · Cam 'mlaen fydd ffocysu ar flwyddyn 10 ar ol y Pasg – nhw fydd yn bwysig ac yn flaenoriaeth I ni nawr. · Annog rhai disgyblion heb ymuno a google classroom neu yn ateb ebyst – hyn y anodd ei reoli – her dysgu o hirbell!! · Anodd iawn tracio disgyblion · Cadw defnyddio 'parent call' neu a fydd modd bod llythyr yn mynd i bob cartref ar ol y Pasg at rieni er mwyn eu hatgoffa. Ddim yn hollol siwr faint o rieni sy'n dilyn trydar ac ati er mwyn cael y wybodaeth. 	
<p>Gwasanaethau Cyhoeddus</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi gorfodi i mi ymgyfarwyddo'n gyflym gyda Google Classrooms (gan mae hwn yr wyf yn defnyddio am GC) ac mae'r sgiliau yn y maes yn gwella (er bod pellter i fynd eto) • Wedi gallu gosod nifer o dasgau, deunydd dysgu a chymorth ar y classrooms a fydd yn help mawr i gadw trefn dros yr wythnosau nesaf ac mewn blynyddoedd i ddod. • Nifer o ddisgyblion (y rhai mwyaf cydwybodol fel arfer) yn cysylltu'n rheolaidd am waith, cyflwyno tasgau ac am adborth. 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim llawer o brofiad o'r Google classroom cyn y broses yma ac rwyn siwr fod modd gweud llawer gwell defnydd ohonno na beth dwy yn ar hyn o bryd. • Llawer o ddisgyblion heb ymateb o gwbwl eto (dros hanner mewn rhai o'r grwpiau dysgu). Ddim yn siwr y rheswm am hyn? Efallai heb weld neu yn fwy tebygol eu bod wedi gweld a wedi dewis anwybyddu. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer o'm dyddiadau cau heb fod eto felly bydd mwy o adborth penodol ar ol hynny. • Pwysleisio yn glir i bob disgybl drwy llythyr canolog o'r ysgol beth yw pwysigrwydd ymateb i'r gwaith a osodir a chyswllt rheolaidd gyda'r athrawon pwnc (yn enwedig disgyblion hyn yr ysgol). Efallai mae'r gwaith y byddant yn gwneud yn y cyfnod yma bydd y gwahaniaeth rhwng graddau iddynt.

<p>Hanes</p>	<ul style="list-style-type: none"> · Wedi gorfodi rhai ohonom ni staff i arbrofi, peidio bod ofn TGCH! · Wedi dod i adnabod rhai disgyblion yn well, cael cysylltiad unigol a phersonol gyda hwy. • O ganlyniad i ddysgu o hirbell, wedi dod o hyd i rai adnoddau, links newydd defnyddiol, bydd o gymorth yn y dyfodol. · Rhai disgyblion wedi ymateb yn dda i'r gwaith, wedi derbyn gwaith o safon. · Rhan helaeth o ddisgyblion wedi llwyddo cael mynediad i'r deunydd. 	<ul style="list-style-type: none"> · Rhai disgyblion heb ymateb i'r tasgau hyd yn hyn. A yw disgyblion o bosib dan bwysau i gwblhau gormod o waith? · Anoddach tracio, gyda chymaint o E byst yn dod trwyddo, ee pwnc allgraidd fel Hanes, dwi'n dysgu dros 200 o ddisgyblion. · Er gwaethaf y defnydd o links, cyfarwyddiadau manwl, weithiau mae angen esbonio rhywbeth. Angen i ni fel adran, o bosib, arbrofi gyda ffyrdd o recordio ni'n siarad. · Yr holl e byst yn ben tost. Anodd dianc o waith ysgol gyda'r e byst ar y ffon. Ddim eisiau tynnu'r e byst o'r ffon rhag ofn i mi gollu neges hollbwysig. · Gyda phlant ein hunain adref i ofalu amdanynt hefyd, mae'n anodd weithiau ffeindio'r amser i gwblhau'r gwaith ysgol. 	<ul style="list-style-type: none"> · Parhau i arbrofi ac addasu ein defnydd o Tgch · Penderfynu ar bolisi marcio o ran yr holl waith sy'n cyrraedd. · Oes disgwyl i ni ymateb i bob tasg/ ambell i dasg bwysig? · A ydym fod i gadw copiau o'r gwaith sy'n cyrraedd yn ganolog? Creu ffolder ar gyfer pob dosbarth plentyn?
<p>Daearyddiaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Annog dysgwyr annibynnol. • Ond hefyd yn gallu annog rhai i ofyn am gymorth. (Rhai unigolion sy'n dawel iawn yn y dosbarth yn e-bostio am help. • Llai o straen ar athrawon. • Annog disgyblion i fod yn fwy trefnus. 	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod pob disgybl yn deall y gwaith • Sicrhau bod pawb yn cyflawni pob tasg. • Anghysondeb o ran safon gwaith y disgyblion. • Er bod llawer yn gofyn am gymorth, ydy pawb yn deall y tasgau? • Angen cysondeb o ran rhieni - Cadw ar ben disgyblion i weithio. 	<ul style="list-style-type: none"> • Os modd newid un rhywbeth? • Dibynnu ar ddyfodol TGCH?
<p>Seicoleg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gallu rhannu gwybodaeth a chyfarwyddiadau i gynulleidfa darged gyfan yn hawdd ac yn gyflym • Myfyrwyr (y mwyafrif ohonynt) wedi ymateb yn frwdfrydig ac wedi gwneud defnydd da o'r dechnoleg • Disgyblion yn fodlon ac yn hyderus wrth gysylltu i wirio dealltwriaeth • Y dechnoleg ac yn arbennig cyfrif trydar yr 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhai disgyblion wedi nodi diffyg wi-fi gartref = diffyg Gwaith (Simone Bastin) • Rhai disgyblion wedi gweld y 'newid yn heriol' a hyn wedi arwain at ddiffyg cyflawniad (e.e. Shakira Morka, ac Elan Morris sydd wedi gadael gwaith I bentyrru heb yr annogaeth wyneb I wyneb dyddiol y byddent wedi ei dderbyn). Wedi troslgwyddo I AT. 	

	<p>adran wedi caniatáu I ni gynnal diddordeb myfyrwry yn y pwnc - disgyblion bl.12 Seicoleg wedi bod yn arbennig chwarae teg iddynt.</p> <ul style="list-style-type: none"> Rwyf wedi coladu cwestiynau cyffredin a oedd yn dod o sawl cyfeiriad(e.e. am fater heriol ar gyn-bapur, neu am gynnwys a strwythur yr agwedd Gwerthuso yn y Prosiect Unigol BAC) ac wedi ffurfio e-byst FAQ'S ac yna danfon y cwestiynau a'u hatebion ar fy ebyst torfol I holl aelodau'r dosbarthiadau gyfan ac mae hyn wedi gweithio'n effeithiol i leihau'r traffic. 	<ul style="list-style-type: none"> Nifer o ddisgyblion heb gysylltu/ymateb i ebyst O GWBL! (wedi trosglwyddo enwau i AT a Ben Davies ym MrynTawe) - rhein yn fyfyrwyr Seicoleg bl.13 - ble does dim elfennau di-arholiad ac er yr holl bwysleisio, maent yn amlwg wedi ffarwelio'n feddyliol gyda gwaith Safon Uwch 	
Cerddoriaeth	<ul style="list-style-type: none"> Rhwydd i osod gwaith ar gyfer nifer o ddosbarthiadau mewn cyfnod byr o amser 	<ul style="list-style-type: none"> Natur ymarferol y pwnc yn amhosib i'w gyflawni heblaw am yr elfen TGCh Dim pob dosbarth wedi ymddangos ar Teams - gorfod ebostio ambell ddsbarth. Dal i aros am fersiwn Sibelius am ddim i 10-13 	<ul style="list-style-type: none"> Llunio mwy o weithgareddau creadigol. Defnyddio apiau fel Garageband i hybu cyfansoddi.
Saesneg	<ul style="list-style-type: none"> Dod i adnabod rhai plant yn well drwy gyfathrebu ar ebost. Cyfle i'r adran wella sgiliau TGCh! Wedi bod yn bwriadu gwneud mwy o ddefnydd o Teams ac ati ers sbel a hwn wedi'n gorfodi. Gorfod bod yn fwy cryno mewn cyfarfodydd a gwneud pethau'n fwy eglur i bawb. Asesu gwaith plant arlein lot yn haws gan nad yw'n bosib gwneud yr holl anodi rydym yn ei wneud wrth farcio llyfrau. Y ffordd ymlaen i rai tasgau, efallai? 	<ul style="list-style-type: none"> Ymateb anghyson iawn gan ddisgyblion - rhai yn gydwybodol tra bod eraill heb gysylltu o gwbl. Nifer o ddisgyblion yn gofyn lot fawr o gwestiynau ar ebost am y gwaith pan yn amlwg heb ddarllen y cyfarwyddiadau o gwbl. Hwn yn rhwystredig i athrawon. Rhai problemau technegol wrth osod gwaith, e.e. dim modd gosod aseiniad i Fl.7 i gyd yn yr un man, gan fod Teams yn methu gwneud hwn i fwy na 200 unigolyn. Angen i ddisgyblion/rhieni/staff addasu'u ffordd o weithio. Rydym ni fel adran wedi bod yn gosod gwaith yn wythnosol, gan adael i ddisgyblion benderfynu pryd i'w gyflawni. Does dim modd cynnal amserlen ysgol arferol, gan fod sefyllfaoedd gwahanol 	<ul style="list-style-type: none"> Sut i gynnal momentwm Bl.11/13 pan maent eisoes yn gwybod bod eu harholiadau wedi'u canslo. Rydym yn pwysleisio'r pwysigrwydd o gyflawni gwaith er mwyn cyfrannu at raddau darogan, ond mae llawer sydd ddim yn gweld pwrpas parhau. Wedi bod yn gosod gwaith fel blwyddyn i GA3, ond yn anodd i addasu i gyflymder y dosbarth/gwahaniaethu'n addas. Angen gweithio ar hwn. Sut i ddelio a disgyblion nad sy'n cyfathrebu/cyflwyno gwaith. Mae'n anodd gwybod y rhesymau: gall fod un cyfrifiadur rhwng teulu, disgyblion gwan yn stryglu i ddeall, dim cefnogaeth/anogaeth i weithio. Felly'n

		<p>ym mhob teulu o ran gwaith rhieni, defnydd y cyfrifiadur, gofal plant ayyb sy'n golygu nad yw hwn yn bosib.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau cysondeb adrannol o ran disgwyliadau, adborth ac ati. Yn ymdrechu i wneud hwn drwy gyfarfodydd ond yn anoddach i fonitro nag y mae yn yr ysgol. • Cysondeb ar draws pynciau - disgyblion yn boddi hefo lot o dasgau mawrion i'w gwneud ar yr un amser. • Cynnal disgyblion ADY/MAT. Gwahaniaethu. 	<p>pryderu am anfon Parentmail a chreu pwysau ychwanegol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Natur y pwnc yn golygu lot o ddarllen/trafod yn ystod gwersi. Anodd i gyflwyno deunydd newydd ar ol y Pasg heb allu gwneud hwn. • Bwriadwn gynnig bwydlen o weithgareddau mwy o hwyl i bob cyfnod allweddol fel gwaith ychwanegol dewisol ac i ymestyn disgyblion MAT. • REC i drafod efo Annette i weld a fydd modd defnyddio Bl.12/13 i wneud rhyw fath o fentora o ddisgyblion MAT is i lawr yr ysgol. • Bwriadwn edrych ar ffyrdd o arwain disgyblion drwy ddeunydd darllen, e.e. drwy recordiad llais, lluniau o ddeunydd darllen wedi'i anodi ac ati.
Gwyddoniaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n hawdd gosod gwaith i'r disgyblion ei dderbyn • Mae "Stream" wedi bod yn adnodd grêt ar gyfer ychwanegu fideos i esbonio gwaith. • Mae modd gweld pa ddisgyblion sydd wedi agor Gwaith a pwy sydd heb. • Nifer o aelodau o'r adran (sydd heb blant bach!) wedi cael llawer o amser i greu Gwaith cartref newydd ar Forms, sydd yna yn gallu cael ei osod fel gwaith cartref ar Teams. Mae hyn yn marcio ei hun ac yn rhoi adborth ar unwaith i'r disgyblion. Gall athrawon hefyd cael mynediad i weld pa agweddau o'r gwaith mae'r disgyblion yn cael yn anghywir yn rheolaidd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ambell broblem fach gyda disgyblion yn dysgu sut i ddanfod gwaith yn ôl trwy Teams – ond mae'r opsiwn o anfon dros e-bost wedyn o hyd yna. Disgyblion yn tueddu i weithio fe allan yn y pendraw. • Weithiau mae Hwb wedi bod yn araf ac nid ydym wedi gallu cael mynediad i Teams. • Wedi trio cyfarfod adran trwy Teams wythnos diwethaf ond methu gweld pawb ar y sgrin yr un pryd, felly prynhawn fory rydym yn treialu'r app Zoom • Gosodom Waith I bara 4 wythnos o hyd ar gyfer CA3 oherwydd pan glywon ni fod ysgolion yn cau roedd ansicrwydd os oedd gwyliau Pasg mynd i symud i fod yn gynnar, felly dyddiad cau ein Gwaith CA3 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwneud fwy o ddefnydd o Microsoft Forms wrth osod Gwaith cartref ar gyfer pob CA. • Cynnal cyfarfodydd adran wythnosol ar lein. Ar hyn o bryd, pob Dydd Gwener am 2yp. • Pennaeth adran i barhau cyfathrebu dros ein grŵp WhatsApp I gael negeseuon cloi i weddill yr adran. • Pennaeth adran i barhau i ysgrifennu e-byst rheolaidd i'r adran sy'n crynhoi holl benderfyniadau Newydd wrth iddynt gael ei chreu/addasu dros yr wythnosau. • Arbrofi gyda'r defnydd o "Stream"

	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi atal disgyblion i allu sgwrsio rhwng ei gilydd yn ein teams ni i osgoi unrhyw beth anaddas. Ond mae modd i ddisgyblion adnabod ei fod nhw wedi derbyn y wybodaeth trwy wasgu “like” ar y neges. Mae’r disgyblion CA3 yn dda yn wneud hyn, a CA5, ond gan fod CA4 mewn fel blynyddoedd cyfan credu mai nhw’n rhy swil i ddangos i weddill y flwyddyn fod nhw wedi gweld y Gwaith! Holl adran wedi ymateb yn wych i’r newid. Pennaeth adran gyda mynediad i bob dosbarth ar Teams ac felly yn gallu sicrhau fod pob athro yn cyfathrebu gyda’i ddsbarthiadau a hefyd yn gallu rhannu negeseuon gyda’r holl ddsbarthiadau ar yr un pryd – e.e.. wrth osod Her Wyddoniaeth wythnosol i bob CA. 	<p>ydy 17/4/20. Felly er mae ambell ddisgybl wedi cyflawni’r gwaith yn barod, mae’r rhan fwyaf heb, felly methu eto dweud pwy sydd yn ymateb o CA3.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae modd ar Teams weld actifedd dosbarthiadau, ond heb weithio allan eto sut i weld enwau’r unigolion sydd heb fod yn actif (llun wedi atodi) Ymateb o’r adran ydy fod nifer o flwyddyn 10/11 a 13 heb gyflawni’r tasgau a osodwyd. 	
<p>leithoedd Modern</p>	<p>CA4 a CA5</p> <p>1. model gwrs ‘in development’ ar gyfer Ffrangeg a Sbaeneg sy’n cynnwys clip sain sef llais yr athro + testun. Y nod yw darllen, gwranddo, siarad ac ysgrifennu trwy’r pob ‘gwrs’. Bydd pethau ychwanegol yn rhai gwrsi fel cyfieithu + gramadeg. Mae’r prif nod yw creu’r naws o ‘immersion learning’ a chyflwyno’r tasgau yn yr un steil â’r beth sy’n digwydd mewn gwrs draddodiadol. [engraifft wedi atodi]</p> <p>2. Cyfarfodydd galwad llais wedi dechrau trwy’r MS TEAMS sef 4 disgybl ar y pryd. Cyfle i siarad a chlywed yr iaith. Y bwriad yw ‘cwrdd’</p>	<p>Mae’n cymryd amser hir i fonitro bod pob disgybl wedi ymateb i’r pob darn o waith.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae angen sicrhau amrywiaeth o dasgau er mwyn cadw diddordeb. Ond am dynnu llun o waith ar bapur, does dim llawr o ffordd weld tystiolaeth Beth wedyn bydd y system dilyn lan disgyblion le fydd diffyg gwaith? 	<ul style="list-style-type: none"> Yn gyffredinol, wrth arbrofi a’r strategaethau dros y pythefnos diwethaf, teimlaf fod ffordd i ddarparu’r elfennau allweddol o’r addysg IM i’r disgyblion wrth fod yn greadigol yn y ffordd ni’n ymdopi a’r heriau newydd. Ni angen addasu ein pwynt pŵer dysgu wrth greu fersiwn addas i’r hunan dysgu ym mhob CA. Yn olaf, teimlaf fod yr egwyddor o recordio llais athro le fydd angen wedi clywed y darn er mwyn gallu wneud y gwaith sy’n dilyn, yn ffordd o gadw lan Cymreictod ar draws pob

	<p>hanner awr bob yn ail wythnos gyda phob grŵp.</p> <p>3. Adnoddau ar lein yn y dosbarth HWB. Mae'r disgyblion yn gyfarwydd â'r dysgu annibynnol trwy'r Dosbarth HWB yn ogystal â derbyn tasgau a negeseuon trwy'r dosbarth.</p> <p>4. Plant yn gallu recordio gwaith trwy'r Flipgrid</p> <p>5. Bydd Bl 11 yn derbyn 'asesiad' llafar ar ôl hanner tymor trwy'r TEAMS</p> <p>CA3</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bl 9 -datrysiad dros dro oedd gosod tasgau trwy'r dosbarth Duolingo. Disgyblion yn ymateb yn dda iawn. Rhaglen arbennig am ddysgu iaith [hefyd ar gael am yr iaith Cymraeg addas i'r rhieni di-gymraeg] Adroddiad yn cael ei greu yn awtomatig gan Duolingo sy'n dangos cynnydd. • Bydd ffocws newydd ar ôl Pasg yn dibynnu ar newyddion o ran opsiynau. • Bl 8 - Gwersi wedi addasu o'r cynllun gwaith arferol. Plant yn ymateb yn dda iawn • Bl 7- pecyn o waith wedi rhoi allan cyn gadael ysgol – anodd i monitro ar y foment. 		<p>pwnc. Yn amlwg y ffocws ni yw creu naws yr iaith Tramor ond yr un egwyddor sydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn bersonol, rwy'n gweld yr angen efallai o godi ysbryd pobl wrth wneud heriau hwylus ond mae yn ddyletswydd arnom ni i 'ennill' ein cyflog a darparu gwersi effeithiol ac yn werthfawr. Mae hon angen amser ac egni!
Cyfrifiadureg	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r adrannau wedi cymryd yr her i ddefnyddio'r technoleg sydd o gwmpas – sef Google Classrooms neu Microsoft Teams. • Mae'r adborth i fi wedi cael yn positif iawn. Mae'r technoleg yn gweithio ac mae'r plant yn derbyn y gwaith. • Mae'r adran TG wedi bod yn defnyddio Microsoft Teams ers ddwy flynedd felly I ni'n eithaf clued up ar y technegau a'r methodoleg sydd yn dod gyda'r systemau 	<ul style="list-style-type: none"> • Methu dibynnu ar y dechnoleg sydd gan y plant adref na'r sgiliau sydd gan y rhieni. • Un person sydd yn darparu cymorth TGCh i staff, plant, rhieni a hefyd yr ysgolion Cynradd. Does dim llawer o degwch. • Mae'r person sy'n rhoi cymorth technegol yn gorfod ffonio rhieni ac yn gorfod cysylltu gyda peiriannau personol nhw. • Mae angen i adrannau cael amser I baratoi adnoddau digidol. Mae nifer o adrannau wedi gwneud hwn ond oes amser i'r 	<ul style="list-style-type: none"> • Oes angen i ni fel ysgol penderfynnu ar un platform ar gyfer daparu'r addysg o bellter? Oherwydd Hwb, mae Gwyr yn Ysgol Microsoft – ond mae hefyd arbenigedd gyda Google Classrooms a Hwb Classrooms – sef 3 system gwahanol. • Mae'r plant yn ymdopi'n iawn gyda'r systemau gwahanol, ond mae rhieni wedi cwyno bod y gwaith dros y lle i gyd. Angen ymchwilio a gwneud

	newydd – er rydym yn gwerthuso ein systemau yn achlysurol ac yn barod i newid os oes angen.	gweddill?	penderfyniad. <ul style="list-style-type: none"> Byddai'n braf cael rhywun arall mewn hefyd i helpu GJE gyda hyfforddiant – falle arbenigwr o du allan?
Celf	<ul style="list-style-type: none"> Cryfderau- ymateb y plant ar y cyfan yn dda iawn mae google classrooms yn weddol hawdd yw defnyddio 	<ul style="list-style-type: none"> Rhai dal heb ymuno / dderbyn y gwahoddiad I fod yn y dosbarth a felly dydy nhw ddim yn derbyn gwaith na unrhyw gyhoeddiadau 	
Y Bac / Cyfryngau	<ul style="list-style-type: none"> - Defnydd o Teams/Hwb Classes wedi caniatu i rhai o adnoddau'r adran i gael eu rhannu gyda myfyrwr er mwyn gallu cwblhau gwaith. - Mwyafrif o fyfyrwr wedi ymateb i'r tasgau a osodwyd. - Cyfathrebu staff yr adran - rydym wedi hen arfer a pheidio a chael cyfarfod adran (sy'n her yn ei hun) ond mae'r staff wedi ymateb yn wych i'r ceisiadau am ddanfôn negeseuon at y myfyrwr ac rydym yn cyfathrebu'n gyson a'n gilydd drwy ebyst/ffon. - Tracio - mae'n weddol hawdd i weld pwy sydd wedi danfon gwaith i'w asesu drwy'r system ebyst ac felly mae cofnod digidol o waith gyda'r staff. - Ar nodyn bersonol, cyfle i wneud golch rhwng gwersi a chyfle i gael amser cinio go iawn 	<ul style="list-style-type: none"> - Does dim sicrwydd bod y disgyblion yn gwneud y gwaith na chwaith i'r safon ddisgwyliedig (yn unol a meini prawf cymwysterau allanol). - Cost (I fi nid yr adran) - Laptop wedi torri ac wedi gorfod buddsoddi mewn un newydd. Anodd cael gafael ar Lapotop addas yn ystod y cyfnod dan glo felly wedi talu mwy na fyddwn fel arfer. Mae llawer o ysgolion erbyn hyn yn darparu laptops / ipads i staff i bwrpas gwaith ac felly id yw'r staff yn ysgwyddo costau sy'n glwm yn uniongyrchol gyda gwaith. - LLe - Anodd i staff yr adran sydd a theulu adref. Pawb angen man i weithio - llonydd I ganolbwyntio yn gallu bod yn broblem. - Ebyst o fyfyrwr yn cyrraedd bob awr o'r dydd gyda gwaith swmpus Safon Uwch i'w asesu - anodd rheoli hyn. - Myfyrwr yn disgywl gwaith yn ol yn hynod gloi heb ddealltwriaeth o'r amser mae'n cymryd I asesu rhai tasgau ee Prosiac Unigol. (ee ebost yn cyrraedd ar brynhawn Gwener gyda Rhiant yn cysylltu gyda PB erbyn amser cinio ar y bore LLun I ddweud nad oedd ymateb o'r athro er bod yr athro wedi ymateb ond y disgybl heb ddarllen canllawiau - cymryd amser i ail ymweld a'r mater a allai fod wedi ei ddatrys petai'r rhiant a'r disgybl wedi talu sylw i'r gohebiaeth a gyfathrebwyd). 	<ul style="list-style-type: none"> - Teimlad bod angen i rhieni/plant dderbyn hysbys o'r TRU bod ebostio staff yn hwyr yn y nos (ee wedi hanner nos neu ar ol oriau gwaith) gan ddisgwyl ymatebion (yn aml i waith swmpus estynedig sydd angen buddsoddi amser mewn darllen yn ofalus) o fewn amser afrealistaidd yn anerbyniol (ac mae'n gosod straen di angen ar staff). Un person yw bob aelod staff, gyda rhai yn dysgu hyd at 180 o blant arholiad rhwng blwyddyn 10 ac 13. Mae yna ddiffyg ystyriaeth o hyn ar adegau. - Cysoni ein darpariaeth am TEAMS/HWB Classes. Mae rhai staff yn defnyddio TEAMS, eraill Classes ac eraill Ebost. MAe bob system yn gweithio a does dim angen mawr I newid ond braf byddai gallu canlobwyntio ar Ebost a TEAMS ar gyfer y dyfodol gan bod y ddau i weld yn gweithio'n effeithiol. Yr her fan hyn yw bod angen hyfforddiant pellach ac amser i sefydlu ac ymglyfarwyddo a'r systemau hyn Er bod GJE wedi bod yn ffantastig yn helpu o hirbell, fel PA nad oess yn yr Ysgol yn ystod y sesiynau hyfforddi (o ganlyniad I hunan-ynysu), mae'n fwy o her I arwain yr adran gyda'r newidadau hyn. - Edrych ar ffordd pellach o gynnal myfyrwr

		<p>- Mae'n her i adrannau bach(un person) I allu cynnig yr un ddarpariaeth ac adrannau mawr ble mae hyd at 8 aelod staff yn cyfrannu at agweddau o'r ddarpariaeth. Er bod dymuniad efallai gan rhai adrannau I gynnig mwy o adnoddau digidol nid yw'r amser na'r sgil technegol yn meddwl bod e'n bosibl gwneud hyn wastod</p> <p>- Her i beidio a gallu gweld y staff wyneb yn wyneb I drafod - mae'n fwriad I gynnal cyfarfod adran ar linc fideo yn fuan ond nid yw hyn yr un peth.</p> <p>- Mae darparu cyngor ar gyfrifiadur ddim yr un peth a gwneud wyneb yn wyneb. Ble byddai esboniad a chyfle I ofyn cwestiynau wedi digwydd o fewn cyfnod byr yn yr Ysgol, mae'r broses nol a mlaen o negeseuon yn gallu bod yn hirfaeth ar ebyst.</p>	<p>bregus. Mae un neu ddau wedi cysylltu i ddweud eu bod yn teimlo dan straen ac yn gweld hi'n anodd I ddod o hyd I gymhelliant o orffen gwaith</p> <p>- Oes bwriad i gynnal cefnogaeth i PA o Rheolwyr Llinell yn bythefnosol? Byddai cefnogaeth i adrannau yn wir werthfawr ac yn gyfle i ni allu rhannu gofidion a blaenoriaethau'r adran o hirbell.</p>
D.T.	<ul style="list-style-type: none"> - Tasgau sy'n ysbrydoli i weithio - Marcio'n haws a chynnig adborth / gosod targedau - Trawsolwg o bwy sydd yn cyflawni'r gwaith - Niferoedd y disgyblion sy'n ymateb i waith wedi cynyddu fel mae'r diwrnodau fynd ymlaen - Arfer dda ac yn paratoi ar gyfer disgwyladau cyflwyno gwaith yn y Brifysgol / byd gwaith - Gorfodi'r staff i drefnu a rhannu ei ffeiliau gwybodaeth / nodiadau / ppt ayb - Cyfrifon Intagram a Twitter - Llwyddiant a sylw y cyfryngau teledu i ceginmrhenry - Flexitime o ran gallu gweithio,n gynnar yn y bore yn lle teithio 	<ul style="list-style-type: none"> - <u>Rhai</u> heb ymuno, er cael cod neu/a gwahoddiad - Nifer helaeth yn absennol yr wythnos olaf cyn cau'r ysgol - Rhai rhieni yn ebstio gwaith y disgyblion o'u cyfrifon personol • Posib, fod y pynciau craidd yn cael ei blaenoriaethu - Diffyg sgiliau TGCH y disgyblion yn enwedig bl7. - Monitro pob disgybl - Ansawdd y gwaith yn amrywio - Anodd i gylchdroi ein grwpiau / dosbarthiadau - Cyfle cyfartal i bob disgybl i weithio adre hy cyfarpar, nifer yn y teulu, gofidiau eraill, dilyn yr amserlen ysgol 	<ul style="list-style-type: none"> • Hyfforddiant a rhannu arfer dda yr Adrannau. • Hyfforddiant i'r disgyblion yn hanfodol o'r cychwyn pan yn cyrraedd yr ysgol. • Canolbwyntio ar sgiliau craidd ein pwnc - ceisio gosod mwy o dasgau ymarferol fel yn bwyd • Dechrau gyda'n grwpiau bl9 TGAU newydd, cyn gynted a phosib • Annog CBAC i ddechrau gwaith cwrs / rhannu cyd-destunau TGAU yn gynt na Mehefin 1af, 2020 • Aildrefnu amseriad rhai unedau gwaith • Creu unedau gwaith hunan gynhaliol • Creu gwersi fydd yn addas pan yn absennol neu'n methu dysgu

<p>Drama</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Disgyblion hyn yn gweithio'n annibynnol – rhoi'r cyfle iddyn nhw ymchwilio yn fanylach gyda arweiniad pan fo'r angen, o ganlyniad mae'r gwaith yn dangos perchnogaeth, a'r disgyblion yn ymddiddori a holi. Mae ol eu personoliaeth yn dod trwyddo fwy hefyd. (Ond, mae dosbarth hyfryd ym mlwyddyn 12) • System ffantastig o ran yr ystod eang o weithgareddau chi'n gallu cynnig i'r disgyblion – plant da yn barod wedi cyflwyno gwaith (cyn y ddyddiad cau) ysgrifenedig/perfformio o'r safon uchaf. Sylwi bo nhw'n cael y cyfle i ganolbwyntio ar dasgau mewn ffordd gwahanol annibynnol e.e. blwyddyn 7 wedi ymchwilio, ysgrifennu, perfformio, ffilmio, golygu – rhyddid a'r gwaith yn wych ac ol mwynhad. • Hyn yn fwy o rhywbeth gallwn ni wneud gyda disgyblion (enwedig MAT) wedi i ni ddychwelyd i'r ysgol. Sylwi, sdim rhaid i'r tasgau estynedig fod o fewn y dosbarth yn unig. • Disgyblion CA3 wedi ymateb yn dda i'r dasg – ac yn cyflwyno'r gwaith ar y 6ed/20fed o Ebrill, mi ro'i wybod bryd hynny beth bydd safon y gwaith. I fod yn onest, dwi ddim yn disgwyl y bydd pawb wedi ei gyflwyno, ac mi fyddai'n gyrru'r enwau perthnasol draw at CE. • Marcio'r gwaith yn straightforward – yn y dyfodol, dwi'n credu taw dyma sut y byddwn ni'n cyflwyno tasgau gwaith cartref – bydd yn achub llwyth o amser gwerthfawr (yr unig wers yr wythnos) o ofod nodi gwaith cartref yn y llyfr cyswllt/ 	<ul style="list-style-type: none"> • Serch hynny, mae dod i arfer gyda system Google classrooms yn cymryd amser – a mater o arfer yw hynna, mi ddeith. Rwy'n ymwybodol mod i wedi gosod tasgau sydd angen gwell eglurhad, ac mae angen i mi arbrofi mwy a dod i adnabod y system/ffordd o weithio, nawr yw'r amser. • Mae sawl disgybl wedi cael trafferth cael mynediad i'w gwaith, rwy'n trio datrus y broblem, ond, yn aml heb fawr o lwc. Ni felly yn cysylltu via ebyst – deall y bydd hyn yn gwella, unwaith ni nol yn yr ysgol, ond, rwy'n ofni bydd y disgyblion yma yn rhoi 'give up'. Byddai'n aros hyd dyddiad cau y tasgau i weld lle ni wrthi. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ar y cyfan, mae'n gyfle gwych i ni ddod i arfer gyda system newydd, teimlaf bod llawer mwy o gryfderau na gwendidau, unwaith y bydd pawb wedi dod i arfer a gweithio yn y ffordd yma. Rwy'n edrych mlaen i arbrofi a gwella yr hyn gall yr adran ei gynnig i'r disgyblion.
--------------	--	---	--

	<p>dosbarthu / casglu taflenni/ egluro tasgau. Wrth weithio fel hyn, bydd disgyblion yn cael yr 'instant result' mae nhw'n ei hoffi.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd yn llawer haws gwahaniaethu wedyn hefyd, lle bydd system (ni'n defnyddio i raddau yn barod) lle gall y disgyblion ddewis eu gwaith oddi ar y 'fwydlen'. – Wrth weithio yn y modd yma, dwi'n teimlo bo' ni'n 'getting with the times' yn well, ac yn gweithio fwy tuag at anghenion y disgybl, a'r defnydd o dechnoleg sydd yn barod yn rhan mawr o'u bywydau – gwaith yn fwy apelgar ac yn agymaint haws i fonitro. • Felly, oes angen llyfrau cyswllt? Bydde'n gymaint haws nodi popeth yn electroneg. Yn barod mae disgyblion yn hoffi nodi gwaith / tynnu lluniau o wybodaeth gwaith cartref oddi ar y bwrdd gwyn. Beth am My classroom? • Mae'r system yn ffordd wych o gadw cofnod o farciau'r disgybl. Mae'r system o gysylltu gartref trwy CE, yn gwneud popeth yn haws i'r adran (enwedig gan ein bod yn gweld cynifer) yn sicr mae'n lleihau'r baich, ac yn fy marn i, yn ein gwneud yn fwy parod i osod tasgau ysgrifenedig. Ar sawl achlysur, nodwyd bod yr adran ddim yn cynnig digon o dasgau ysgrifennu/ ymestynol, a teimlaf bod rhyw fath o ddatrusiad yma – wrth gwrs, mae cael yr amser i arbrofi a sylwi hyn wedi bod yn werthfawr iawn. 		
Mathemateg	<p>Treialu pethau Newydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r broses yn ein hala ni i geisio cyfarwyddo a defnyddio o dechnoleg mewn 	<p>Disgyblion yn cael hi'n anodd cael mynediad i'r gwaith. Mae hyn weithiau oherwydd problemau technegol, ond hefyd mewn llawer man nid</p>	<p>Yn edrych ymlaen i weld beth ddeuf o'r Cynulliad yn dilyn cyhoeddiad Kirsty Williams eu bod yn mynd i ddarparu 'a National</p>

	<p>ffordd gwahanol.</p>	<p>ydynt medru dilyn cyfarwyddiadau digon syml! Yr holl ymholiadau wedi bod am y mynediad a nid am y gwaith.</p> <ul style="list-style-type: none"> · Diffyg caldedwedd disgyblion e.e. broadband, printers, ac ambell i un heb gyfrifiadur neu ffon. <p>Yn ymwybodol fod yr ysgol wedi cynnig darpariaeth os oes problem.</p> <ul style="list-style-type: none"> · Modd o sicrhau bod y disgyblion wedi cyflawni ac yn ymateb i'r gwaith ar lein. Un aelod o'r adran wedi cysylltu a'i dosbarth cofrestri, gan ofyn iddynt ymateb i'r gan gymraeg drwy ddanfôn sgor allan o 10 i'r gan. Ond tri sydd wedi ymateb. Pryder efallai bod yr un difaterwch i'w gael at y gwaith sy'n cael eu osod. · Colli ar y cyfle i ymateb yn syth i adborth disgybl y bydde gennym yn yr ystafell ddosbarth. · Marcio yn anodd i'w wneud ar ffurf electroneg ac yn cymryd llawer may o amser i'w wneud ar sgrin. · Mae hyd yn oed y rhai sy'n hen gyfarwydd a defnyddio'r technoleg yn gweld y system yn 'clunky' iawn. · Problemau caldedwedd a broadband i athrawon. · Pwysau gwaith ar y disgyblion (yn enwedig y rhai cydwybodol). <p>Mae'n ymddangos o sylwadau rhai athrawon ac o gynnwys rhai ebyst bod y disgyblion yn teimlo eu bod yn cael llawer mwy o waith nag erioed ac yn dod o bob cyfeiriad. A oes angen rhywun i oruchwilio swmp y gwaith sydd yn mynd allan i ddisgyblion? Nid ydym am iddynt ddiflasu gyda'r gwaith.</p>	<p>Programme for the Continuity of Learning'. Mae'r cyhoeddiad yn addo llawer, ond gewn weld!</p> <ul style="list-style-type: none"> · Yn dilyn cyfarfod adran ddoe rydym yn mynd i geisio greu tasgiau i Flynyddoedd 7-10 a fydd yn cael eu marcio yn electroneg. Mi fydd y marciau i bob cwestiwn yn weladwy i ni a gallwn wedyn ymateb i wendidau unigolion. <p>Trwy ein bod yn gweld y marciau gallwn hefyd weld faint o'r disgyblion sydd yn cyflawni'r gwaith, a dilyn i fyny ar hyn drwy rhoi'r enwau at ddefnydd y TRU/Pennaeth blwyddyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> · I Flynyddoedd 11 i fyny byddwn yn parhau i rhoi gwaith ar ffurf cyn-bapurau iddynt. Mae'r 6ed wedi cael cyswllt at nodiadau, engrheifftau, ymarferion a fidios i'w helpu gyda'r gwaith. · Gan fod CBAC erbyn hyn wedi ysgrifennu holl bapurau arholiad haf 2020, byddai cael mynediad iddynt, gyda'r cynlluniau marcio yn fudd i'r broses o bendefynnu ar radd penodol i ddisgybl. A byddai modd cysylltu a CBAC am hyn? Bydde hefyd o fudd i Fl.12 cael sesiwn arholiadau Ionawr 2021 yn lle rhai Haf yma. Eto bydde modd cysylltu a CBAC am hyn
<p>Addysg Gorfforol</p>	<p>- Teams i flynyddoedd 7-9. Set up yn y lle cyntaf yn dda</p>	<p>- Teimlo nad oes 'gafael' da ni ar y plant hy does dim ffordd (ar wahan i enwi plant yn</p>	<p>- Felly HMS fyddai'r ateb!</p>

	<ul style="list-style-type: none"> - Classrooms i fl 10-13 (TGAT/U). Eto y set up iawn! Ni wedi hela mas papurau arholiad (11-13) i'r disgyblion gwblhau, ond yr unig ffordd o gael rhain nol - ar hyn o bryd - yw trwy'r plant yn tynnu llunie a gorfod hela degau o ebyst! Anodd wedyn i farcio a hela nol gyda sylwadau! Er, ware teg i Brandon Harries, ma fe di hela trwy google drive lle galla'i ysgrifennu ar y llunie ma fe di hela er mwyn rhoi adborth uniongyrchol! Rhai wedi teipio atebion allan ar word! 	<p>unigol) i sicrhau eu bod yn edrych ar yr ebyst/cwblhau'r tasgau. Gallen i ofyn iddyn nhw i hela fideos o'u hunain - ond ydyn ni wir ishe mynd ar hyd y trywydd 'na!!! Ambell un yn hela emoji, ond prin yw'r rheiny!</p> <ul style="list-style-type: none"> - Llicen i allu cael fwy o ymateb oddiwrth y plant - I'r rhai sydd yn cwblhau y gwaith, gwych - ond prin yw'r rheiny. Os nad yw'r plant yn darllen yr ebyst, does dim gafael da ni arnyn nhw - byddai'n cysylltu a'r PB heddi! 	
<p>Y Ty ADY</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mewn ffordd rhyfedd wedi gwella perthynas gyda'r rhieni. • Rhai disgyblion wedi gweithio'n well heb disgyblion eraill. • Hyfryd cael gwerthfawrogiad o rhan fwyaf o'r rhieni. • Cynorthwyo'r rhieni. • Penderfyniad cywir wedi ei wneud i anfon gwaith adref gyda'r disgyblion. 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhai disgyblion yn gweld hi'n anodd i weithio yn y tŷ. • Methu cynorthwyo fel byddwn eisiau. • Gwybod bod rhai disgyblion yn cael tantrums pan mae'r rhieni yn gofyn iddynt gweithio. • Does dim un disgybl wedi cysylltu â fi. • Heb clywed o 2 rhiant, felly does dim syniad gen i os maen nhw wedi gwneud unrhyw beth. Efallai bod dau disgybl ddim yn llawer yn dosbarth prif ffrwd, ond mae dau disgybl blwyddyn 8 yn 100% o flwyddyn 8 y tŷ. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ceisio cael ymateb oddi wrth y disgyblion • Treialu gyda teams neu Google classrooms.

**DADANSODDIAD O WERTHUSIAD STAFF O'R BROSES ADDYSGU A DYSGU O HIRBELL
CANFYDDIADAU CYFFREDINOL (PYTHEFNOS GYNTAF)**

AGWEDD	CANFYDDIAD ADRANNAU	YMATEB / DATRYSIAD / BARN
<p>CRYFDERAU / MANTEISION</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Hwb classrooms, Teams , Google classrooms yn gweithio'n ddiffws ar y cyfan • Staff wedi ymgysgu â'r systemau hyn yn iawn ac o fewn byr amser • Cyfle i ryngweithio gyda disgyblion • Wedi cyfrannu'n wych at greu DYSGWYR MWY ANNIBYNNOL a llawer o'n disgyblion wedi dangos disgyblaeth a threfn a chysylltu'n rheolaidd, cyflwyno tasgau a gofyn am adborth • Tasgau o ansawdd uchel wedi eu cyflwyno • Cyfle i gynllunio tasgau rhag blaen a chynnig amrywiaeth o weithgareddau • Modd ymateb yn gyflym i broblemau • Parodrwydd disgyblion i ofyn am gymorth wedi cynyddu yn enwedig dysgwyr sy'n rhy swil i godi llais a phryder yn y dosbarth arferol • Marcio gwaith yn haws trwy ddefnyddio SYLWADAU • Disgyblion yn ymateb yn dda i'r sylwadau hyn • Wedi gorfodi staff i ymgysgu'n gyflym gyda Google Classrooms a weithiau heb orfodaeth nid yw pethau'n digwydd • Sgiliau cyfrifiadurol staff wedi datblygu llawer • Nifer o dasgau a chymorth yn gallu cael ei gynnig yn hawdd sy'n lleihau gwaith tymor hir i'r athro • Staff wedi darganfod links pynciol newydd o ganlyniad i weithio ar y we a'r broses addysgu o bell a fydd o gymorth mawr i'r dyfodol • Llasi o straen ar athrawon • Dullhawdd o rannu gwybodaeth a chyfarwyddiadau yn gyflym • Dysgwyr wedi cofleidio'r dull hwn o weithio 	

- Y dechnoleg newydd + trydar + Instagram yn ddulliau hwylus o gynnal diddordeb pynciol
- Hawdd gosod gwaith i lawer o ddisgyblion / dosbarthiadau mewn cyfnod byr. Byddai hyn wedi gwastraffu llawer o amser mewn gwersi arferol + o'i wneud i bob dosbarth
- Cyfle i ddod i adnabod y plant yn well
- Asesu gwaith ar lein tipyn haws na'r holl anodi a wneir trwy farcio arferol mewn llyfr. Y ffordd ymlaen efallai?
- STREAM yn adnodd gwych ar gyfer rhannu fideos
- Modd cadw cyfrif o bwy sy'n agor a chyflawni gwaith
- Gellir weithiau creu Gwaith sy'n marcio ei hunan
- Dull hawdd i Bennaeth Adran fonitro gwaith yr adran a rhannu negeseuon trofol i aelodau'r adran
- TEAMS yn ddull gwych o gynnal cyfarfod adran
- FLIPGRID yn ddull gwych i balnt recordio gwaith
- BI 11 yn medru gwneud asesiadau llafar trwy TEAMS
- Tracio yn haws
- Tasgau yn ysbrydoli plant i weithio
- Marcio yn haws + cynnig adbortgh a gosod targedau
- Niferoedd sy'n ymateb yn cynyddu wrth i'r dyddiau fynd yn eu blaen
- Arfer gwych o weithio annibynnol yn paratoi dysgwyr ar gyfer byd gwaith a bywyd Prifysgol
- Gorfodi staff i rannu adnoddau / nodiadau / gwybodaeth /ppt ayb
- Datblygu sgiliau ymchwilio disgyblion
- Cyfle gwych i ddatblygu ysgrifennu estynedig a pherfformio
- Dull o osod tasgau estynedig i ddysgwyr MATH. Osgoi eu gosod yn y dosbarth
- Gyda system fel hyn yn ei le oes eisiau LLYFRAU CYSWLLT?

	<ul style="list-style-type: none"> • Dysgu o bell yn arbed llawer o waith cyfwlyno gwaith catrterf, egluro , cofnodi, dosbarthu taflenni gwaith, casglu taflenni i mewn ayb • Dull hawdd o wahaniaethu trwy gynnig bwydlen o opsiynau i ddisgyblion • Dull o “getting nin with the times!” • Gwella perthynas gyda rhieni _ tynnu rhieni yn rhan mwy gweithredol o waith eu plant 	
GWENDIDAU / PROBLEMAU	<ul style="list-style-type: none"> • Methu gwirio ymatebion disgyblion • Diffyg rheolaeth dros ddysgwyr yn ymuno gyda dosbarthiadau, darllen E Byst a chyfarwyddiadau, agor negeseuon a chyflawni gwaith • Tipyn o her i ddisgyblion a rhieni ganfod a rheoli gwaith gan fod adrannau ar systemau gwahanol. Hawdd i adran ond anodd i ddysgwyr sy’n wynebu gwaith ar 3 neu 4 system wahanol oddi wrth 12 pwnc • Diffyg offer, cyfrifiaduron, cluniaduron, y we mewn rhai cartrefi. Rhai teuluoedd yn rhannu un cyfrifadur rhwng pawb • Y we + cyfrifiaduron yn araf iawn mewn rhai ardaloedd • Ansawdd ambekl dasg yn is na’r disgwyl ac ol brys mawr sy’n arwain at dangyflawni • Disgyblion yn ymbellhau o waith a rhai yn diflannu o wyneb y ddaear • Bl 10 / 12 yn ofid • Diffyg profiad disgyblion o’r systemau yn arwain at broblem diffyg ymroddiad ac ymroi • Rhai disgyblion dan bwysau aruthrol ac wedi derbyn swmami o waith – yn enwedig y disgyblion cydwybodol nad sy’n gwybod ble mae troi • Anodd delio gyda’r holl E Byst sy’n cyrraedd yn enwedig dosbarthiadau allgraidd CA3 – 200 o E byst!! • Dim byd yn medru cymryd lle esbonio wyneb yn 	

wyneb ac anogaeth a chysuro ar y pryd

- Anodd diand o waith ysgol wrth fyw ar y ffon / cyfrifiadur. Ofni colli neges bwysig felly anodd ymlacio
 - Anodd diogelu fod pob disgybl yn DEALL y gwaith
 - Sawl disgybl wedi gweld y newid hwn yn heriol iawn oherwydd diffyg profiad o'r dull hwn o weithio
 - Rhai rhaglenni pynciol pwysig ddim ar gyfrifiaduron y disgyblion adref felly mae'n anodd cyflawni gwaith holl bwysig e.e. Sibelius Cerdd; TEAMS yn methu delio gyda dros 200 o unigolion – felly anodd rhoi tasg dorfol i ddsbarthiadau
 - Llawer o ddisgyblion yn gofyn llawer o gwestiynau pan fo cyfarwyddiadau yno o'u blaen. Hyn yn rhwystredig i athrawon
 - Anodd monitro cysondeb adrannol
 - Hwb ar adegau yn araf iawn sy'n effeithio ar yr addysgu a dysgu
 - Beth yr ydym am wneud gyda disgyblion 10 – 13 nad sy'n cyflawni gwaith
 - Mae'n her i fonitro ymatebn pob disgybl i bob darn o waith
 - Anodd gweld tystiolaeth o waith ymarferol
 - Diffyg amser qwedi bod i gynllunio a chreu tasgau digidol
 - E Byst yn cyrraedd bob awr o bob dydd
 - Dysgwyr yn disgwyl i waith gael ei farcio cyn gynted a phosibl
 - Dull hwn o weithio yn her enfawr i adrannau bach. Gret
- i adrannau mawr lle gellir rhannu ac ysgwyddo'r baich
- Rhieni yn E Bostio gwaith o'u cyfrifon personol nhw
 - Diffyg sgiliau TGCh gan lawer o ddisgyblion e.e. BI 7
 - Marcio yn anodd ar ffurf electroneg

	<ul style="list-style-type: none"> • System yn gallu bod yn “cluncky” iawn • Disgyblion a rhieni yn teimlo bod eu plant yn cael mwy o waith nawr nag erioed o’r blaen!! Gofal rhag iddynt ddiflasu! • Rhai disgyblion yn ei gweld hi’n anodd gweithio yn y cartref gan fod y teulu i gyd ar ben ei gilydd a dim lle preifat i weithio 	
<p>Y FFORDD YMLAEN</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i ddatblygu ar y dull hwn o weithio a’i blethu mewn i’r dull mwy traddodiadol o addysgu a dysgu • Parhau i dreialu syniadau digidol newydd yn enwedig gyda’r holl fomentwm hwn yn ei le • Angen negeseuon canolog cyson i rieni trwy lythyr, E Bost, Trydar / instagram / - dyw pawn ddim yn defnyddio yr un cyfryngau cymdeithasol • Ystyried newid polisi a dull o farcio i gadw lan gyda’r dechnoleg newydd • Ystyried dull o gadw’r gwaith hwn a’i ffeilio e.e. E Broffil • Arbrofi gyda Apiau newydd, rhaglenni, gwefannau ayb • Delio gyda dysgwyr nad sy’n cyflawni gwaith – beth yw’r strwythur • Defnyddio BI 12 / 13 fel system BYDI i gynorthwyo disgyblion iau yr Ysgol • Arwain plant trwy tasgau trwy recordio llais yr athro yn esbonio a chyflwyno tasg • Byddai athro yn recordio llais yn esbonio tasg yn fodd o gynnal Cymreictod / iaith Dramor ar adeg pan nad yw’r disgyblion yn clywed fawr un iaith ond Saesneg • Cynnal cyfarfodydd Adran trwy TEAMS neu Zoom • Arbrofi gyda STREAM • Oes angen i ni fel ysgol benderfynu nawr ar UN PLATFORM i addysgu o bell a hynny yn seiliedig ar y 	

cyfnod arbrofol hwn

- Angen rhywun allanol arnom i gynnal hyfforddiant a'n gyrru ymlaen ymhellach eto yn y maes hwn (hyn wrth GJE)
- Dod i benderfyniad fel ysgol pryd mae E Bostio yn dod i ben e.e. polisi peidio E Bostio wedi ??? o'r gloch y nos
- Angen i ni gael sesiwn rhannu arfer dda ysgol gyfan yn dilyn y cyfnod cyffrous hwn o arbrofi
- Parhau i ddefnyddio'r dull hwn o weithio in atgyfnerthu sgiliau craidd ein pynciau
- Cychwyn gyda'n grwpiau TGAU BI 9 cyn gynted a phosibl
- Annog CBAC i rannu testunnau TGAU ynghynt + ac agor ffenestri arholiadau Tacxhwedd ac Ionawr am eleni yn unig
- Parhau i greu unedau hunangynhaliolDiddorol gweld be ddaw o gynllun Kirsty Williams a "a National Programme for the Continuity of Learnig" sy'n addo llawer!!
- Mwy o ddefnydd o dasgau sy'n marcio eu hunain

(Ffurfiwyd: Mawrth 2020 - JC)

(Adolygwyd :- Mai 2020 - GW)